*These notes refer to the Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (c.1)*

# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 2 – Y Dreth a'R Prif Gysyniadau

#### *Adran 16 - Cyfnewidiadau*

28. Pan ymrwymir i drafodiad tir yn gyfnewid am drafodiad tir arall, mae adran 16 yn pennu y caiff y trafodiadau eu trin fel dau drafodiad tir ar wahân nad ydynt yn drafodiadau cysylltiol. Mae'r ddarpariaeth hon yn gymwys ni waeth sut y strwythurir y cyfnewidiad. Felly, mae'r dreth trafodiadau tir i'w chodi o hyd (ar bob rhan o'r cyfnewidiad) ar drafodiad tir pan fo'r gydnabyddiaeth yn cael ei thalu gan y prynwr, naill ai'n llwyr neu'n rhannol drwy ymrwymo i drafodiad ar wahân fel gwerthwr.